Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Maelor**
**Llannerch Banna**
**Wrecsam**
**LL13 0LU**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Maelor

Ysgol gyfun gymysg 11-18 cyfrwng Saesneg yw Ysgol Maelor. Mae'r ysgol ym mhentref Llannerch Banna i'r de ddwyrain o Wrecsam ac yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang, sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Ar hyn o bryd, mae 809 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 146 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn uwch na niferoedd y disgyblion pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2014.

Mae 5% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae tua 12.4% o ddisgyblion yr ysgol ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 22.9% ar gyfer ysgolion uwchradd. Mae gan 0.6% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef 2.2%. Mae'r ysgol yn lletya canolfan adnoddau anghenion arbennig yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth, a'r rheiny â dyslecsia hefyd, ac mae 12 disgybl yn mynychu'r adnodd hwn ar hyn o bryd, yn ogystal ag addysg brif ffrwd yn yr ysgol.

Mae tua 1% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys y pennaeth, un ddirprwy bennaeth a dirprwy bennaeth dros dro, tri phennaeth cynorthwyol, uwch athro a rheolwr busnes.

Mae'r ysgol yn ysgol sy'n arloesi yn y cwricwlwm ar hyn o bryd, ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n ymwneud â diwygio'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Caiff ethos cynhwysol a chefnogol Ysgol Maelor effaith fuddiol ar les a datblygiad personol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau da at ddysgu, ac yn ymgymryd yn dda â'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a gynigir gan yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthnasoedd gwaith pwrpasol a pharchus gyda disgyblion, ac mae'r addysgu mewn llawer o wersi yn effeithiol o ran sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw holi llawer o athrawon yn archwilio dealltwriaeth disgyblion nac yn eu herio i ddatblygu eu medrau llafar yn ddigon da, ac mewn lleiafrif o wersi, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn herio disgyblion yn ddigonol i gyflawni eu llawn botensial.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr a myfyriol, ac ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth, mae'n meithrin ethos cefnogol a gofalgar sy'n creu amgylchedd dysgu trefnus a phwrpasol. Bu arweinwyr yn llwyddiannus yn sicrhau gwelliannau mewn llawer o agweddau ar waith yr ysgol, fel gwella ymddygiad, ansawdd yr adborth ysgrifenedig a'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd a chysondeb yr addysgu nac mewn codi safonau.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella ansawdd yr addysgu

A3 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys trylwyredd ac effeithiolrwydd prosesau gwella ansawdd

A4 Mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mewn llawer o achosion, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol, a gall mwyafrif ohonynt gymhwyso hyn i sefyllfaoedd newydd. Mewn ychydig o wersi hynod effeithiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau rhesymu mewn perthynas â mesurau cyfartaledd data a roddir ar ffurf tabl. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd mewn gwersi, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 islaw perfformiad ysgolion tebyg ym mwyafrif y dangosyddion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando â sylw a pharch ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn gwneud cyfraniadau addas at drafodaethau grŵp bach neu ddosbarth cyfan. Mae ychydig ohonynt yn cynnig atebion estynedig datblygedig ac yn esbonio eu rhesymau'n fanwl, er enghraifft wrth drafod p'un a oedd rhywedd yn broblem wrth recriwtio pobl i ymuno â mordeithiau archwilio yn y bymthegfed ganrif. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn amharod i gynnig eu barn yn ystod trafodaethau dosbarth cyfan, neu wrth weithio mewn grwpiau bach. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn hyderus i siarad Cymraeg mewn gwersi ac yn dangos ynganiad da, er enghraifft wrth drafod eu safbwyntiau ar chwaraeon a hamdden.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau darllen sylfaenol cadarn. Maent yn dod o hyd i ffeithiau ac yn dethol gwybodaeth allweddol o ystod o destunau. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion Blwyddyn 9 yn brasddarllen a bwrw golwg dros erthyglau er mwyn nodi peryglon ysmygu goddefol. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o dechnegau perswadiol ac yn defnyddio rhesymu a dod i gasgliad yn dda, er enghraifft i wella eu dealltwriaeth o gymeriadau mewn testunau llenyddol fel 'Of Mice and Men' a 'Martyn Pig'.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu sy'n feddylgar, yn dechnegol gadarn, ac wedi'i strwythuro'n addas, er enghraifft wrth ysgrifennu am ddatblygu gargoiliau mewn gwersi celf. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu at ystod addas o ddibenion, gan gynnwys traethodau llenyddol ar ryddiaith a barddoniaeth a darnau pendant ar destunau heriol fel ewthanasia, trawsblannu organau a throseddau'n ymwneud â gynnau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sylfaenol yn aml yn eu hysgrifennu. Nid ydynt yn cymryd digon o gyfrifoldeb am brawfddarllen eu gwaith cyn ei roi i'r athro. Mewn Cymraeg, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig sydd wedi'u strwythuro'n addas ac yn cynnwys ystod eang o eirfa. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o amser y ferf ac yn ysgrifennu'n dda yn y person cyntaf, yr ail berson a'r trydydd person.

Mae gan lawer o ddisgyblion amgyffrediad cadarn o'r prif fedrau rhif. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn dda wrth ddatrys problemau a osodir mewn bywyd bob dydd. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae disgyblion yn datrys problemau sy'n cynnwys cyfrifo biliau cartref. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth briodol o fesur, er enghraifft wrth gwblhau gwaith ymarferol mewn ffiseg, fel pennu dwysedd gwahanol ddeunyddiau. Mae'r disgyblion hyn yn tynnu llun graffiau'n gywir ac yn dadansoddi data o ffynonellau amrywiol yn briodol i lunio casgliadau synhwyrol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol mewn gwersi technoleg gwybodaeth ac ychydig o bynciau eraill.  Er enghraifft, mewn addysg gorfforol, mae disgyblion yn defnyddio llechi cyfrifiadurol i ddadansoddi eu perfformiad eu hunain a pherfformiad disgyblion eraill.  Fodd bynnag, nid yw defnydd disgyblion o gymwysiadau mwy datblygedig fel taenlenni, cronfeydd data a phecynnau aml-gyfrwng, wedi'i ddatblygu'n ddigonol gan nad oes digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm.

At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn briodol.  Er enghraifft, yn ystod gwersi addysg gorfforol, maent yn datblygu eu medrau amddiffyn a'u hymwybyddiaeth o ofod mewn pêl-rwyd.  Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dawn greadigol yn dda, er enghraifft wrth dynnu llun mygydau i adlewyrchu diwylliant Mecsicanaidd 'diwrnod y meirw'.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 wedi dirywio ar y cyfan.  Yn 2018, mae perfformiad islaw'r perfformiad a welwyd mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.  Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi dirywio, ac mae ymhell islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg.  Dros yr un cyfnod hefyd, nid yw perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.  Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu cyfran y disgyblion sy'n ennill pum cymhwyster TGAU neu fwy ar raddau A*-A yn gyson is na'r gyfran mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad merched a bechgyn wedi dirywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn 2018, nid yw'n cymharu'n dda â pherfformiad eu cyfoedion mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ennill cymhwyster TGAU lefel 2 mewn Cymraeg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau â'u haddysg naill ai mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

Yn y chweched dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwersi.  Dangosant frwdfrydedd, hyder a gwybodaeth bynciol addas.  Maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau bach ac yn dangos medrau llafaredd datblygedig, er enghraifft wrth drafod newidiadau i ardaloedd gwledig ers y 1960au.  Yn 2016 a 2017, bu perfformiad yn y chweched dosbarth yn is na pherfformiad mewn ysgolion tebyg, ar y cyfan.  Bu gwelliant mewn perfformiad yn 2018, fodd bynnag, ac roedd yn cyd-fynd yn fras â pherfformiad ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion, er bod cyfran y disgyblion sy'n ennill 3 chymhwyster Safon Uwch, graddau A* - C yn parhau i fod yn is na'r gyfran mewn ysgolion tebyg.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy y gallant droi os bydd angen cymorth arnynt.  Maent yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw faterion.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn gwrtais â'i gilydd ac â'u hathrawon.  Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn barod i ddysgu.  Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd dysgu pwyllog a phwrpasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddysgwyr abl, sy'n dangos hyder addas yn eu dysgu. Maent yn gweithio'n galed ac yn dal ati i ganolbwyntio, gan ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac ymfalchïo yn eu gwaith. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn ymddieithrio o'u gwaith ac nid ydynt yn gwrando â sylw digonol yn y dosbarth. Mae ychydig iawn o ddysgwyr yn dangos ymddygiad amhriodol neu anaeddfed ond yn ymateb yn briodol i'r dull disgyblu pendant a chadarnhaol a fabwysiadwyd gan yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos gwydnwch priodol wrth roi cynnig ar waith heriol. Mae gan leiafrif ohonynt waith anghyflawn neu waith ar goll yn eu llyfrau, neu nid ydynt yn ymateb yn ddigon da i sylwadau eu hathrawon.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau gwybodus am fwyd iach, ac yn deall yn dda bwysigrwydd ymarfer corff, er enghraifft wrth ddysgu am y 'plât bwyta'n dda' ('Eatwell plate') a gwerthoedd maethol mewn dylunio a thechnoleg a gwyddoniaeth. Maent yn deall yn dda sut i aros yn ddiogel ar-lein. Mae disgyblion, yn enwedig y rheiny yng nghyfnod allweddol 3, yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn ystod eang y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau cerddoriaeth, drama a chwaraeon, fel pêl-rwyd, pêl-fasged, badminton a phêl-droed.

Trwy'r cyngor ysgol, caiff disgyblion eu cynnwys yn weithredol wrth wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos medrau arwain a chyfathrebu datblygedig trwy eu rolau fel arweinwyr chwaraeon ac fel aelodau o'r cyngor ysgol. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfranogiad cynyddol ar draws yr ysgol mewn clybiau chwaraeon, ac at wella cynaliadwyedd trwy leihau'r defnydd o blastig yn y ffreutur. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn darparu cymorth buddiol i ddisgyblion iau i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn meithrin perthnasoedd gwaith pwrpasol a pharchus gyda disgyblion. Mae ganddynt arferion sefydledig sy'n sicrhau bod disgyblion yn ymdawelu'n gyflym ar ddechrau'r wers ac yn barod i ddysgu.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau priodol o ddisgyblion. Maent yn cynllunio gwersi'n briodol i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn rhoi cyfarwyddiadau clir i ddisgyblion ac yn esbonio cysyniadau'n dda. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau wedi'u harwain gan athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach i atgyfnerthu eu gwybodaeth ac ymestyn eu dealltwriaeth. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn briodol, ac yn darparu adborth llafar buddiol.

Mewn ychydig o wersi, mae addysgu ysbrydoledig yn cymell ac yn ennyn brwdfrydedd disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn angerddol ynglŷn â'u pwnc, ac mae'r brwdfrydedd hwn yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda. Maent yn cynllunio tasgau ysgogol a heriol sy'n annog disgyblion i feddwl yn ddwys. Maent yn monitro cynnydd disgyblion yn agos ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn arbenigol i addasu gweithgareddau. Mae cyflymdra sionc i ddysgu ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae'r athrawon hyn yn defnyddio holi'n fedrus i ddyfnhau dealltwriaeth disgyblion.

Mewn lleiafrif o achosion, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau sy'n gweddu'n ddigon agos i allu disgyblion. Nid yw cyfarwyddiadau ac esboniadau athrawon yn ddigon clir. Nid ydynt yn monitro cynnydd disgyblion yn ddigon da, ac mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn mynd i'r afael â chamsyniadau disgyblion mewn modd amserol. Mewn lleiafrif o achosion, mae cyflwyniadau athrawon yn rhy hir ac nid ydynt yn cynnig digon o gyfleoedd i athrawon ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at y ffaith nad yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd.

Mewn llawer o achosion, nid yw dull athrawon o holi yn archwilio dealltwriaeth disgyblion yn effeithiol. Maent yn gofyn gormod o gwestiynau caeedig sy'n gofyn i ddisgyblion roi ateb byr yn unig. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau llafar a meddwl yn ddigon da.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig adeiladol a gwerthfawr i ddisgyblion ar sut y gallant wella eu gwaith, ac yn rhoi cyfleoedd yn ystod gwersi iddynt wneud hynny. Mewn ychydig o achosion, nid yw disgyblion yn ymateb yn briodol i'r sylwadau hyn, neu nid yw athrawon yn ailedrych ar atebion disgyblion i wirio eu cynnydd.

Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar ddysgu disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol. Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau defnyddiol gyda darparwyr eraill, ac yn cynnig ystod gynhwysfawr o bynciau galwedigaethol ac academaidd sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cynnig dull wedi'i gydlynu'n briodol o ddatblygu medrau disgyblion ar draws y cwricwlwm yn raddol. Mewn llawer o achosion, mae adrannau'n darparu ystod briodol o weithgareddau ystyrlon sy'n cyfrannu at ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ysgrifennu'n estynedig. Yn ychwanegol, mae cyfleoedd addas iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw profiadau dysgu i ddisgyblion wella eu medrau llafaredd wedi eu datblygu'n ddigonol, ac mewn lleiafrif o achosion, nid yw tasgau rhifedd yn cynnig lefel ddigonol o her. Nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh disgyblion, yn enwedig y medrau ar lefel uwch, wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn nodi'n dda y disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwannach ac yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol. Mae'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion atgyfnerthu'r medrau hyn yn ystod amser tiwtor.

Mae ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol gwerthfawr ar gael i ddisgyblion, fel gweithgareddau diwylliannol, clybiau chwaraeon ac ymweliadau addysgol. Gall disgyblion mwy abl elwa ar brofiadau cyfoethogi perthnasol sy'n annog dilyniant ymlaen i addysg uwch a llwybrau gyrfa priodol. Er enghraifft, mae merched Blwyddyn 10 yn datblygu eu diddordeb mewn peirianneg trwy gystadleuaeth 'Make it Enterprising Challenge' ac mae disgyblion 'Seren' yn y chweched dosbarth wedi cymryd rhan mewn llawer o ddigwyddiadau llwyddiannus i gefnogi eu dyheadau gyrfa.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu gwerthfawrogiad o ddiwylliant Cymru, gan gynnwys yr eisteddfod flynyddol, gwasanaethau Dydd Gŵyl Dewi a chymryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau'r Urdd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae Ysgol Maelor yn gymuned gynhwysol a gofalgar. Mae'n darparu amgylchedd croesawgar ar gyfer disgyblion, staff ac ymwelwyr. Mae ymrwymiad cryf i hyrwyddo cydraddoldeb a chefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, er enghraifft trwy raglen sydd wedi'i chynllunio i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol a diwylliant o gyfeillgarwch ym Mlwyddyn 7.

Mae'r ysgol wedi datblygu system olrhain drylwyr a defnyddiol i fonitro'r cynnydd a wna gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae hyn yn rhoi goruchwyliaeth gynhwysfawr i uwch arweinwyr o berfformiad yr ysgol mewn pynciau a dangosyddion perfformiad allweddol trwy gydol y flwyddyn. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithlon i nodi'r disgyblion hynny y mae angen ystod o ymyriadau arnynt. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw asesiad athrawon o gyrhaeddiad disgyblion yn ddigon cywir.

Caiff ymddygiad a phresenoldeb eu holrhain yn agos. Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r adroddiadau lles bob hanner tymor i nodi'r disgyblion hynny sydd angen ymyriadau bugeiliol penodol er mwyn cael gwared ar eu rhwystrau rhag dysgu. Mae gan yr ysgol system gynhwysfawr ar gyfer delio ag unrhyw achosion o ymddygiad gwael ac fe gaiff hyn ei gymhwyso'n gyson gan athrawon. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar allu bron pob un o'r disgyblion i reoli eu hymddygiad yn briodol. Caiff yr achosion prin iawn o fwlio a adroddir eu rheoli'n effeithlon.

Mae cymorth ac arweiniad i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryf ac yn cyfrannu'n dda at y safonau y maent yn eu cyflawni. Darperir cymorth gwerthfawr a chydlynus ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae dwy uned adnoddau dysgu yn darparu ymyrraeth werth chweil o ran unigolion a grwpiau bach i ddatblygu medrau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd. Mae targedau mewn cynlluniau addysg unigol yn galluogi'r ysgol i fonitro cynnydd disgyblion yn ofalus o fewn y cynlluniau ymyrraeth hyn.

Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n gynhyrchiol ag ystod eang o asiantaethau a phartneriaid arbenigol i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol disgyblion sy'n agored i niwed. Mae'r ysgol yn creu pecynnau cymorth effeithiol fel cyrsiau cwnsela, mentora a chyrsiau amgen ar gyfer y disgyblion hyn. Mae Hwb Bugeiliol yr ysgol yn darparu amgylchedd diogel y gall disgyblion sy'n agored i niwed ei ddefnyddio pan fydd angen.

Caiff rhieni wybodaeth fuddiol am gynnydd a phresenoldeb eu plant a'u hagweddau at ddysgu. Yn ogystal ag adroddiad blynyddol priodol, mae adroddiadau interim defnyddiol yn hysbysu disgyblion a rhieni yn rheolaidd am ddatblygu cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae amrywiaeth o weithdai ar agweddau fel adolygu, iechyd meddwl a medrau llythrennedd a rhifedd yn helpu rhieni i gefnogi cynnydd academaidd a lles eu plentyn. Mae'r ysgol yn rhoi cyngor ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni i lywio dewisiadau pwnc a dewisiadau am yrfa yn y dyfodol.

Mae rhaglen fuddiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn cefnogi lles ac yn llywio dewisiadau iach yn dda. Mae ystod eang o ddarparwyr allanol yn cyflwyno sesiynau defnyddiol sy'n gwella ystod ac ansawdd y testunau yr eir i'r afael â nhw, er enghraifft amrywiaeth, cyfiawnder ieuenctid, rhoi organau a gwydnwch mewn blaenlencyndod. Mae 'diwrnodau Arweiniad Bugeiliol' ysgol gyfan hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion datblygu byd-eang trwy'r cyswllt sefydledig â Lesotho. Eir i'r afael â datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion trwy wasanaethau ac amser myfyrio effeithiol yn ystod cyfnodau tiwtor.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Cynigir ystod addas o weithgareddau allgyrsiol i ddisgyblion yn y celfyddydau creadigol, mewn cerddoriaeth a chwaraeon, ac ymweliadau addysgol sy'n hyrwyddo eu hiechyd a'u datblygiad cymdeithasol.

Mae cyfleoedd addas i'r holl ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cyngor ysgol yn dylanwadu ar wella'r ysgol yn gymwys, er enghraifft cyflwyno'r Sied Chwarae, sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau yn ystod amser cinio. Fodd bynnag, ni chaiff disgyblion gyfleoedd digonol i ddylanwadu ar y modd y mae'r ysgol yn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Mae gweithdrefnau diogelu yn bodloni'r gofynion ar y cyfan, ac nid oes unrhyw feysydd arwyddocaol sy'n destun pryder. Fodd bynnag, daethpwyd â mater iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad i sylw'r ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a myfyriol. Mae'n hyrwyddo synnwyr clir a dealladwy o gyfeiriad a gweledigaeth i ddisgyblion 'gyflawni eu potensial'. Ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth, mae'n meithrin ethos cefnogol a gofalgar sy'n creu amgylchedd dysgu trefnus a phwrpasol. Mae cyfathrebu effeithiol, er enghraifft trwy ystod o fwletinau, cyfarfodydd tîm a briffiau staff, yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n effeithlon o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw arweinyddiaeth ar bob lefel wedi cael effaith ddigon cynaledig ar ansawdd yr addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae cydbwysedd da rhwng rolau a chyfrifoldebau arwain, ac fe gânt eu dyrannu'n briodol ar y cyfan. Rhoddir pwyslais penodol ar ddosbarthu cyfrifoldebau arwain sy'n cyfrannu'n dda at ddysgu proffesiynol staff ac mae wedi helpu cryfhau gallu'r tîm arweinyddiaeth.

Mae trefniadau clir a systematig ar gyfer rheolaeth llinell. Mae'r rhain yn helpu uwch arweinwyr i ddwyn arweinwyr canol i gyfrif am berfformiad yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae diben clir i gyfarfodydd rheolaidd, ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd a lles disgyblion, yn ogystal â blaenoriaethau'r ysgol. Fodd bynnag, mae trylwyredd ac effeithiolrwydd rheolwyr llinell yn amrywio gormod, yn enwedig o ran gwerthuso ansawdd yr addysgu.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol yn cyflawni eu rolau yn llwyddiannus o ran cefnogi gwella'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig ohonynt yn darparu arweinyddiaeth effeithiol yn eu meysydd. Pan fydd angen, mae'r ysgol wedi cymryd camau addas i fynd i'r afael â thanberfformio ymhlith staff.

Mae gan yr ysgol ystod addas o strategaethau defnyddiol i werthuso'i pherfformiad. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad priodol o ddata perfformiad disgyblion ac adolygiadau adrannol lle caiff gwersi eu harsylwi a chreffir ar waith disgyblion. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen o adolygiadau dysgu sy'n canolbwyntio ar ddatblygu medrau disgyblion. Mae'r prosesau hyn yn helpu rhoi dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu i arweinwyr ar bob lefel, a nodi blaenoriaethau gwella priodol. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiad o ran pa mor drylwyr y mae arweinwyr yn gwerthuso effaith yr addysgu ar y cynnydd a wna disgyblion, ac yn benodol, ar ba mor dda y maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn wedi cyfrannu at farn rhy gadarnhaol am ansawdd yr addysgu, ac yn ei gwneud yn anodd i arweinwyr nodi'n ddigon manwl gywir yr agweddau penodol y mae angen eu gwella.

Fel rhan o'i rôl fel ysgol arloesi, mae'r ysgol wedi datblygu'n briodol ei hagweddau at ddysgu proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys caffael golwg cliriach ar y gofynion ar gyfer diwygio'r cwricwlwm y mae wedi eu rhannu ag ysgolion cynradd partner ac ysgolion uwchradd lleol. Mae rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr yr ysgol, gan gynnwys cyfleoedd i rannu arfer dda yn yr ysgol a'r tu allan, yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar effeithiolrwydd yr addysgu. Gall staff ar bob lefel fanteisio ar ystod o gyfleoedd datblygu addas, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer darpar uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mae'r ysgol yn gwerthuso effaith ei gweithgareddau dysgu proffesiynol yn briodol.

Mae aelodau o'r corff llywodraethol yn dangos ymrwymiad cryf ac yn darparu cymorth gwerthfawr i'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac yn cyfrannu'n briodol at bennu ei chyfeiriad strategol. Trwy eu cysylltiadau datblygol ag adrannau penodol, mae llywodraethwyr yn dyfnhau eu dealltwriaeth o agweddau penodol ar waith yr ysgol ac yn darparu cymorth buddiol i staff a disgyblion. Fodd bynnag, er bod llywodraethwyr yn barod i drafod a chwestiynu mentrau penodol, nid ydynt yn dwyn arweinwyr ar bob lefel i gyfrif am eu meysydd cyfrifoldeb yn ddigonol.

Mae'r pennaeth, ynghyd â'r rheolwr busnes a'r corff llywodraethol, yn rheoli adnoddau'r ysgol yn gadarn. Mae staff yn meddu ar gymwysterau priodol ac fe gânt eu lleoli'n addas. Mae'r ysgol wedi cyflawni effeithlonrwydd ariannol angenrheidiol ac wedi codi arian ychwanegol i helpu cyllido blaenoriaethau strategol cytûn. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o gyllid grant i gefnogi lles a chynnydd disgyblion sy'n agored i niwed.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2019